# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017**. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Erika Kirchner | Adran Etholiadol: | Ward y Castell |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar y Gwasanaethau Corfforaethol |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dyma agwedd bwysicaf ein gwaith. Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi ymweld â llawer o breswylwyr er mwyn gwrando ar eu pryderon. Yn ystod 2016-2017, cynhaliwyd cymorthfeydd cynghori dydd Sadwrn wythnosol yn y Marina ac yn Greenhill. Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn bwriadu cynnal mwy o gymorthfeydd stryd. Roeddwn yn derbyn galwadau gan breswylwyr y ward yn rheolaidd ac yn ceisio datrys unrhyw broblemau a oedd ganddynt. Roedd problemau gyda thai, marciau ffordd, tyllau ffordd, anghydfodau rhwng cymdogion, llwybrau bysus, tipio anghyfreithlon, llygredd sŵn, lloches a meysydd eraill megis cynllunio. Roeddwn yn bresennol yng nghyfarfodydd y preswylwyr a gynhelir bob mis neu bob yn ail fis. Roeddwn hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r heddlu a PACT. Rwy'n gadeirydd yn Ysgol Iau Heol Teras ac Ysgol Gynradd San Helen, y mae'r pennaeth newydd ennill gwobr Pennaeth y Flwyddyn Cymru.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Rhianta Corfforaethol | 4 | / | 6 | 66.67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Gwasanaethau Corfforaethol | 8 | / | 10 | 80.00 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 16 | 87.50 | % |
| Cyffredinol | 2 | / | 3 | 66.67 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 8 | / | 12 | 66.67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Atal a Diwygio Gofal | 4 | / | 7 | 57.14 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 1 | 100.00 | % |
| **Cyffredinol** | **41** | **/** | **55** | 74.55 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 5 | / | 12 | 41.67 | % |
| Diwylliant Corfforaethol | 1 | / | 1 | 100.00 | % |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | 0 | / | 1 | 0.00 | % |
| **Cyffredinol** | **6** | **/** | **14** | 42.86 | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd:**

**Cadeirydd y Gwasanaethau Corfforaethol**

Mae'r pwyllgor cynghori hwn wedi'i ddatblygu i helpu Aelodau'r Cabinet i gyflawni eu dyletswyddau er mwyn creu'r polisi gorau ar gyfer y preswylwyr, y gweithwyr a'r twristiaid sy'n ymweld â'n dinas, i brofi mai Abertawe yw'r lle i fod. Yn 2017, newidiodd teitl ac ystyr y grŵp i: Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi. (PDCHP). Mae'r pwyllgor yn ymdrin â llawer o arferion a pherfformiadau mewnol. Mae rhai o'r materion rydym yn eu gweithredu'n cynnwys deddfau ac is-ddeddfau caffael, dileu lefelau salwch ar draws y sir, sicrhau y gofelir yn dda am ein staff pan fydd salwch. Roeddem yn gofalu am y bwlch

rhwng y rhywiau o ran tâl a chyfleoedd staff benywaidd i ddatblygu. Unwaith eto rydym yn arwain y ffordd. Rydym wedi annog ac wedi cydnabod gwaith ein gwirfoddolwyr ymroddedig sydd wedi ennill sawl gwobr fawreddog am eu gwasanaeth cwnsela mewnol sydd am ddim a ddarperir i'r holl aelodau staff ar bob lefel. Mae'n llwyddo i helpu i gadw staff yn y gwaith pan maent yn wynebu cyfnodau anodd.

**Hyrwyddwr yn erbyn Cam-drin yn y Cartref**
Rhan allweddol o fy ngwaith yw gweithio gydag amlasiantaethau sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig. Gyda'n gilydd rydym yn trefnu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Diwrnod y Rhuban Gwyn er mwyn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r mater. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, ysgolion, busnesau a chymunedau. Mae'r ystadegau'n dal i ddatgan bod 2/3 o fenywod yn cael eu llofruddio bob wythnos. Rydym yn parhau i weithio'n ddiflino i leihau'r achosion hyn.

**Hyrwyddwr Amrywiaeth**
Mae ein dinas yn un amlddiwylliannol. Rydym yn falch iawn o weithio ochr yn ochr â'n gwahanol ddiwylliannau. Rwyf yn ymwneud â Chydraddoldeb Hiliol. Cyn i ni fynd ati i ystyried polisi, rydym yn gweithio gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig i sicrhau ein bod yn datblygu polisi da sy'n cynnwys pawb. Er bod rhai sefydliadau elusennol wedi gweld toriadau i'w sefydliad, byddwn yn eu cefnogi er mwyn helpu'r gwasanaethau i barhau. Mae'n bwysig nodi nad yw **amrywiaeth yn ymwneud â lliw a hil yn unig**. Mae'n ymwneud â phob unigolyn sydd â gwahanol ffordd o fyw. Rydym yn darparu cefnogaeth i'n gofalwyr a'n gofalwyr ifanc, pob ffrind anabl sydd mewn trafferthion, yn ogystal â diwylliannau'r lleiafrifoedd ethnig. Rydym bob amser yn gwirio am unrhyw fylchau y gallant fod wedi'u methu er mwyn sicrhau nad ydym ni fel cynghorwyr yn colli unrhyw un y mae angen cefnogaeth arno.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**
Mae gan ein ward glystyrau o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Rydym yn gweithio tuag at fentrau a fydd yn diarddel unigrwydd ac arwahanrwydd. Rydym yn bartner i arianwyr allanol er mwyn helpu'r materion hyn. Cymerodd preswylwyr North Hill ran yng ngharnifal Parc Bryn-y-Don gyda'u tryc wedi'i addurno. Hwyl go iawn!

**Adran 5: Dysgu a datblygu**
*Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth neu'r sgiliau arbennig rydych yn eu cyfrannu i'ch rôl fel cynghorydd. Er enghraifft, efallai'ch bod yn gynlluniwr arbenigol neu efallai bod gennych brofiad penodol o un agwedd ar weithgareddau'r cyngor. Nodwch a oes unrhyw beth arbennig rydych yn ei gyfrannu i'r rôl neu a oes unrhyw hyfforddiant arbennig rydych wedi'i gael sy'n eich helpu yn eich rôl.*
16/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol
17/03/2017 - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ymlyniad

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
Buom yn brwydro eleni ochr yn ochr â'r preswylwyr i ailsefydlu'r llwybr bysus lleol, ac roeddem yn llwyddiannus. Rydym wedi gofyn i swyddogion helpu i dacluso Canolfan Gymunedol San Phillip a llwyddom i'w hailbeintio. Roeddwn hefyd yn cefnogi'r ddwy ysgol gynradd yn fy ardal i ariannu a chefnogi eu prosiectau. Rwy'n gweithio gyda Growing Garden North Hill, Mayhill, sydd hefyd yn cael ei chefnogi gan breswylwyr. Cawsom bicniciau a the wrth ymyl y pwll a gefnogwyd gan breswylwyr a phlant, ac mae'r nosweithiau ystlum wedi gweld mwy o breswylwyr yn ymuno â'r teithiau cerdded ar y bryn. Rydym hefyd wedi cefnogi'r canolfannau cymunedol a'r pafiliwn bowls gyda'u prosiectau.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**
Cyflog Uwch: £22,000 - Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol

**Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017**

| |
|---|
| Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0<br>Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25.01.18 |